5 Tachwedd 2020

Annwyl Riant / Ofalwr

**Adolygiad y cyfnod atal byr a DIOLCH**

Ers Dydd Gwener 23 Hydref bu disgyblion Blynyddoedd 9 i 13 yn aros gartref a chydymffurfio a gofynion y cyfnod atal byr, ac, ers Dydd Llun, yn dysgu o adref. Bu athrawon Ysgol Gyfun Gŵyr yn cyflwyno gwersi ar-lein er mwyn caniatáu hyn i ddigwydd, a **diolch** iddyn nhw am wneud hynny yn llwyddiannus.

Bu Blynyddoedd 7 ac 8, ar ôl wythnos adref, yn yr ysgol ers Dydd Llun 2 Tachwedd yn elwa o wersi ar y safle.

Mae'r myfyrwyr hŷn sy'n sefyll arholiadau TGAU ac arholiadau mynediad Prifysgolion wedi gallu gwneud hynny yn yr ysgol yn ystod yr wythnos hon hefyd.

Hoffwn **ddiolch** i chi fel rhieni am sicrhau bod 97%+ o flynyddoedd 7 ac 8 wedi bod yn Ysgol yn ystod yr wythnos, a diolch enfawr i'r llu ohonoch sydd wedi bod yn gweithredu fel cynorthwywyr dysgu i'n hathrawon yn ystod yr wythnos wrth i'ch plant aros gartref. Diolch hefyd am sicrhau bod eich plant yn cadw at y rheolau angenrheidiol wrth iddynt ddysgu ar Microsoft Teams – mae cwrteisi a pharch eich plant wrth iddynt ymwneud ag athrawon wedi bod yn hyfryd i'w weld. Felly **diolch** o galon i chi gyd!

**Wythnos nesaf**

O Ddydd Llun 9 Tachwedd, bydd pob Blwyddyn yn ôl ar y safle ac yn cael eu **hamserau cinio yn ystod y cyfnodau arferol,** sef

**1240 – 1330** **Blynyddoedd 10 -13**
**1330 – 1420** **Blynyddoedd 7 – 9**

**Yr Adeiladau Newydd**

Mae'r meysydd chwarae newydd – y MUGA, y cae 2G, y cae 3G a'r ardaloedd o amgylch hynny – yn cymryd siâp yn gyflym. Gobeithiwn gymryd perchnogaeth o'r rhain ar

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

ddechrau'r flwyddyn newydd, gan edrych ymlaen yn fawr iawn at ddefnyddio adnoddau pwrpasol sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r gwaith o osod lloriau i'r Ffreutur / Bloc Dysgu newydd yn mynd yn ei flaen, er bod cryn dipyn o waith ychwanegol i'w gwblhau yma cyn yr haf.

**Gwersi Ymarfer Corff Blwyddyn 7 8 a 9 i'r dyfodol**

Yn dilyn yr arbrawf llwyddiannus yr wythnos hon, mae'n fwriad parhau i ganiatáu i Flwyddyn 7 ac 8 i gael blas ar wersi Ymarfer Corff yn y Gampfa, a hynny o dan amodau tynn iawn. Rydym wedi penderfynu **ymestyn y ddarpariaeth hon i Flwyddyn 9** o Ddydd Llun ymlaen.

Felly, os oes gwers Ymarfer Corff ar amserlen disgybl Blwyddyn 7, 8 neu 9, disgwylir iddynt ddod i'r Ysgol yn y bore mewn gwisg addas –

**Merched** – Tracwisg (legins yn dderbyniol) a chrys-T Addysg Gorfforol Gwyr a thrainers i'r ysgol

**Bechgyn** - Tracwisg a chrys-T Addysg Gorfforol a thrainers i'r ysgol.

**Ni fydd modd i ddisgyblion newid dillad ar y safle yn ystod y dydd.**

**Pawb i wisgo'r wisg ysgol arferol ar ddyddiau eraill.**

Bydd y gwersi Blwyddyn 7 – 9 yn dilyn canllawiau byrddau llywodraethol y gwahanol chwaraeon, gan sicrhau bod materion Iechyd a Diogelwch yn cael sylw llawn.

Diolch am bob cefnogaeth

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

5 November 2020

Dear Parent / Carer

**Firebreak review and THANKS**
Since Friday 23 October, Year 9 to 13 pupils have been staying at home and complying with the requirements of the firebreak, and, since Monday, learning from home. Teachers at Ysgol Gyfun Gŵyr have delivered online lessons to allow this to happen. I **thank** them for doing so successfully.

Years 7 and 8, after a week at home, have been at the school since Monday 2 November and have benefitted from face-to-face lessons on the School site.

Mature students sitting GCSEs and Universities entrance exams have been enabled to do so on site this week as well.

I would like to **thank** you as parents for ensuring that 97% + of years 7 and 8 have been in School during the week, and a huge thank you to the many of you who have been acting as assistants to our teachers during the week as your children remain at home. Thank you also for making sure your children abide by the necessary rules as they learn on Microsoft Teams - your children's courtesy and respect as they have interacted with teachers online has been great to see. So a big **thank** you to you all!

**Next week**
From Monday 9 November, every pupil will be back on site and so the lunchtimes will revert to
1240 - 1330 Years 10 -13
1330 –1420 Years 7 - 9

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr Mewn Pobl
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

**Construction on Site**

The new playing fields - the MUGA, the 2G pitch, the 3G pitch and surrounding areas - are rapidly taking shape. We hope to take ownership of these at the start of the new year, and very much look forward to using bespoke resources becoming of the 21st century. Work is also progressing in constructing concrete floors in the new Canteen / Teaching Block, although there is extensive additional work to be completed here before the summer.

**Year 7, 8 and 9 PE Lessons in the future**

Following the successful pilot this week, it is intended to continue to allow Year 7 and 8 to enjoy their PE lessons, under strict conditions. **We have decided to extend this provision to Year 9 from Monday.**

Therefore, if there is a PE lesson on a Year 7, 8 or 9 pupil's timetable, they are expected to come to School in the morning suitably attired -

Girls - Tracksuit (leggings acceptable) and the Gŵyr PE T-shirt and trainers to school

Boys - Tracksuit and PE T-shirt and trainers to school

**Pupils will not be able to change clothing on site during the day.**

**Everyone to wear normal school uniform on days with no PE lessons.**

The Year 7 - 9 lessons will follow the guidelines of the governing bodies of the various sports, ensuring that Health and Safety issues are fully addressed.

Thanks for all your support

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk